



Gorsaf Ddan Gymunedol Abersychan

Diogelu'r Gymuned am y
Flwyddyn i Ddod

South Wales
Fire and Rescue Service



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

CODI YMWHYBYDDIAETH - LLEIHAW PERYGL

Annwyl Gymydog,

Fel Pennaeth Gorsaf Ddan Gymunedol Abersychan, hoffwn rannu ein cynlluniau gyda chi ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Bydd y rhain yn rhoi gwasanaeth lleol gwell fyth i chi.

Fel erioed, ein nod yw ymateb i'ch galwadau am help mor gyflym ag y gallwn. Rydyn ni'n bwriadu gweithio'n galetach nag erioed i atal argyfyngau rhag digwydd yn y lle cyntaf. Yn ystod y deuddeng mis nesaf, ein nod yw:

- Cynnal Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref AM DDIM a gosod larymau mwg yn rhad ac am ddim pan fydd eu hangen. Ffoniwch (0800 169 1234) neu ymwelwch â'r Orsaf Ddan i drefnu apwyntiad.
- Ymweld â'n holl ysgolion lleol i addysgu plant wyth ac un mlwydd ar ddeg oed am beryglon tân.
- Cynnal asesiadau tebygrwydd llosgi bwriadol lleol a gweithio gyda gwasanaethau lleol i gael gwared â sbwriel a pheryglon tân posibl eraill.
- Gweithio gyda'r Heddlu a'r Cyngor Bwrdeistref i leihau nifer uchel y tanau ceir bwriadol yn Abersychan a'r ardal.
- Gweithio gyda'r Heddlu a phartneriaid eraill i addysgu gyrywyr ifanc a lleihau gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd.
- Cael rhywun yn yr Orsaf i roi cyngor ac arweiniad Diogelwch Tân yn y Cartref am ddim bob dydd lau o 6:00pm tan 8:00pm.
- Parhau i ymweld â ffatrioedd a safleoedd diwydiannol yn rheolaidd i sicrhau ein bod wedi ein paratoi'n ddigonol os digwydd tân.

- Cynnal ymarferiadau hyfforddi oddi ar yr Orsaf yn barhaus i sicrhau bod yr Ymladdwyr Tân yn parhau i fod yn hollol barod.

Cofion,
Pennaeth yr Orsaf,
Gorsaf Ddan Abersychan

'HELPWCH NI I'CH HELPU CHI'

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn ymdrechu'n barhaus i wella'n gwasanaethau ar eich cyfer.

Os oes gennych ddi-ddordeb cyfrannu tuag at ein gwelliant drwy gwblhau holiaduron arolwg yn achlysurol, neu os hoffech gael ymateb i unrhyw sylwadau sydd gennych ar y cynlluniau hyn, darparwch eich enw a'ch cyfeiriad, rhif ffôn ag e-bost (os oes gennych un) drwy un o'r ffyrdd canlynol, gan ddyfynnu enw'r Orsaf Ddan ar flaen y daflen hon, ynghyd ag unrhyw sylwadau sydd gennych.

Bydd unrhyw fanylion a ddarparwch yn cael eu dal gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru mewn modd sy'n cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998. Ni fyddwn yn trosglwyddo'r data i unrhyw drydydd parti, byddwn ond yn defnyddio'r data ar gyfer eich darparu chi gyda holiaduron neu unrhyw wybodaeth arall yr ydych wedi gwneud cais amdani.

E-bost: performance@southwales-fire.gov.uk

Rhif Ffôn: **01443 232156** neu

Rhadbost:

**Rhadbost RSAU-CCXG-XKAS
Uned Rheoli Perfformiad (Cyf 34)
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru,
Parc Busnes Forest View, Llantrisant,
PONT-Y-CLUN CF72 8LX.**